
Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru



*Y mae mwy na muriau yma*
*Yn y gafael hwn o dir;*
*Y mae, yng ngwead yr adeilad,*
*Hen ddyheadau ein hanes hir.*

*Yma, rhwng y morfa a'r mynyddoedd*
*Y bu Cymry ar hyd hen oesoedd –*
*Yn dywysogion, yn daeogion –*
*Yn naddu o'r creigiau eu gobeithion,*
*Gan glywed grym fel grym yr eigion*
*Yn tynnu at ei gilydd, yn feini ac ysgyrion,*
*Adeiladwaith a ddeath, yr awr hon,*
*I ni yn arwyddlun o Genedl.*

*Gwyn Thomas*

Gwahoddwyd Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol Cymru i greu cerdd ar gyfer agor swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Os gymerwn 'adeilad' i olygu 'rhanbarth', mae'r gerdd yn adlewyrchu uchelgais y rhanbarth dros y canrifoedd. Cyhoeddwyd y fersiwn Gymraeg gan Barddas, Profiadau Inter Galactig.

ISBN digidol: 978-1-80391-499-2
WG43991
© Hawlfraint y Goron 2021

# Cynnwys

Rhagair y Gweinidog

Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Rhagair

Cenhadaeth Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru

Yr Economi Llesiant

Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol – Blaenoriaethau

1. Yr Economi Gymdeithasol a Llesiant Cymunedol
2. Yr Economi Profiadau
3. Yr Economi Carbon Isel ac Allyriadau Isel

Camau Nesaf

# Rhagair y Gweinidog



Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r partneriaid ar draws rhanbarth Gogledd Cymru am weithio'n ddiflino er budd y rhanbarth, yn enwedig yn wyneb heriau diweddar.

Dylai'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu a gwella bywydau pobl ledled Gogledd Cymru. Dylai ein galluogi i roi cydweithio cyn cystadlu, a hynny drwy ddangos sut y byddwn yn gweithredu i sicrhau'r tegwch mwyaf posibl i bawb a chael gwared ag anghydraddoldeb ar bob rhan o gymdeithas. Mae'n nodi ein prif flaenoriaethau a fydd yn mynd i'r afael â'r difrod i'n heconomi a achoswyd gan ddegawdau o lymder, Brexit ac effaith coronafeirws. Felly'n darparu swyddi teg, sgiliau perthnasol a chyfleoedd hyfforddi newydd. Gyda'n gilydd, byddwn yn ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn ac yn cyflawni trawsnewidiad gwyrdd sy'n dechrau yn ein cymunedau lleol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy: gryfhau gwytnwch ein hamgylcheddau naturiol ac adeiledig i effaith newid yn yr hinsawdd; a thrwy alluogi trawsnewid economaidd a fydd yn dileu ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, gan greu diwydiannau a swyddi'r dyfodol. Bydd hyn yn golygu gorfod wynebu trafodaethau a phenderfyniadau anodd iawn yn y rhanbarth.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a phartneriaid eraill i adeiladu economi sy'n seiliedig ar swyddi cynaliadwy a gwaith teg. Cymeradwyaf y Bwrdd am ei ragweledigaeth o gael partneriaid allweddol i gynrychioli datblygu economaidd ac addysg o amgylch y bwrdd, gan sicrhau

…Gyda'n gilydd, byddwn yn ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn ac yn cyflawni trawsnewidiad gwyrdd sy'n dechrau yn ein cymunedau lleol.

bod y ddau faes yn rhan annatod i bob penderfyniad. Mewn partneriaeth, byddwn yn cefnogi busnesau Cymru i greu swyddi newydd, i fod yn arloesol drwy fynd i'r afael â'n heriau a chreu cyfleoedd, dod o hyd i farchnadoedd allforio newydd a buddsoddi yn niwydiant gwyrdd cynaliadwy yfory. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn cefnogi ein nod o Gymru garbon sero.

Mae gan y Fframwaith, a gyd-gynhyrchwyd gyda'n partneriaid rhanbarthol, rôl allweddol i sicrhau bod gweithgareddau ar bob lefel yn cael eu trefnu i ganolbwyntio ein hadnoddau fel eu bod yn cefnogi ei gilydd i gael yr effaith fwyaf. Mae cymunedau'n ganolog i hyn. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu llais rhanbarthol cryfach a dull sy'n adeiladu ar gydweithrediad presennol Gogledd Cymru mewn perthynas â datblygu economaidd a chymunedol.

Ar draws y sector cyhoeddus, mae angen inni ddeall ein rhannau unigol a chyfunol i gefnogi'r rhanbarth, gan gynnwys gweithio gyda'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, drwy weithio gyda'r trydydd sector a'r sector preifat i ddarparu economi gyfiawn.

Mae Cydbwyllgorau Corfforaethol yn rhoi cyfle pellach i Awdurdodau Lleol gydweithio a chyda Llywodraeth Cymru ar draws nifer o feysydd polisi gan gynnwys lles economaidd.





**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

# Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Rhagair



Fel Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, mae'n bleser gennyf weld y fersiwn gyntaf hon o'r Fframwaith yn cael ei chyhoeddi. Rwy'n hynod falch o'r rhanbarth hwn – mae ganddo gymaint i'w gynnig i'w drigolion a'r byd. O'i hamgylchedd rhyfeddol i'w chymunedau unigryw. Mae angen inni sicrhau bod y fframwaith hwn yn ein galluogi yn awr i gefnogi economi sy'n addas i Ogledd Cymru, gan adeiladu ar ein holl gryfderau.

Dyma'r Fframwaith cyntaf ar gyfer Gogledd Cymru ac mae'n adeiladu ar y traddodiad cydweithredol cryf yr ydym wedi'i ddatblygu yn y rhanbarth dros ddegawdau, gan gynnwys gweithio gyda chydweithwyr ar draws ffiniau yn Iwerddon, Canolbarth Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

Mae'r fframwaith yn ganlyniad o gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu'n helaeth i gyd-ddylunio gyda phartneriaid allweddol yn y rhanbarth a thu hwnt. Mae'r fframwaith yn ymwneud â rhoi'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod ar bapur i'n galluogi i ddeall y ffordd orau o gydweithio yn y dyfodol. Nid wyf o dan unrhyw gamargraff; bydd y gwaith caled yn dechrau yn awr i greu'r cynllun gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau.

Mae economi Gogledd Cymru yn wynebu heriau sylweddol. Gydag adnoddau sy'n lleihau, mae'n iawn fod y fframwaith yn dechrau'r dasg o benderfynu ble i ganolbwyntio, a bydd rolau a'r cyfrifoldebau wedyn yn dilyn i bennu ein cyfeiriad economaidd rhanbarthol.

Mae'r fersiwn gyntaf hon o'r fframwaith yn fwriadol eang a lefel uchel, gyda llawer o'r rhesymeg fanwl a thechnegol mewn dogfennau allweddol eraill fel y Weledigaeth Economaidd ar gyfer Gogledd Cymru, cynlluniau datblygu lleol a Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan. Y fframwaith yw'r cam cyntaf mewn proses i sicrhau ein bod yn creu ffordd effeithlon ac effeithiol o gydweithio ar draws y rhanbarth i wireddu ein potensial er budd ein cymunedau. Bydd gwaith sydd i ddod yn ein harwain at bwynt lle mae pob un ohonom yn gwybod ein rôl yn y rhanbarth, sut rydym yn cefnogi ein gilydd o fewn y rolau hyn, ac yn rhoi'r gallu i ni sicrhau cyllid mewn ffordd strategol er budd ein cymunedau.

Mae'r fframwaith hwn yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar y gwaith presennol ar lefel ranbarthol, a thrwy ddull cynhwysol sy'n seiliedig ar lefydd, mae'n adleisio heriau a chyfleoedd cynnil pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru.


Yr wyf yn cydnabod nad oes gan unrhyw bartner unigol gyda'r holl atebion. Bydd y fersiwn gyntaf hon o'r fframwaith yn ein galluogi i symud ymlaen i'r cam nesaf o gydweithio, a fydd yn golygu cynhyrchu cynllun cyflawni.

Wrth greu'r Fframwaith hwn, rydym yn adeiladu ar y gwerthoedd a rennir sy'n seiliedig ar Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (rhennir y rhain mewn dogfennau atodol).





**Y Cyng. Dyfrig Siencyn,**
Cadeirydd,
Bwrdd Uchelgais Economaidd
Gogledd Cymru



# Cenhadaeth Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru

Ein cenhadaeth drwy'r fframwaith hwn yw dechrau creu cyfleoedd arloesol i sicrhau ein bod yn diogelu ac yn gwella ein hamgylchedd naturiol gan ganiatáu hefyd i gymunedau ffynnu ar yr un pryd. Adeiladu ar ein cryfderau a manteisio ar gyfleoedd lle maent yn ychwanegu gwerth, y tu hwnt i werth ariannol yn unig, i'r rhanbarth.


Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth sydd â chyfoeth o briodoleddau. Mae pobl wedi bod yn ymwybodol o bwysigrwydd gogledd Cymru ers dyddiau cynnar gwareiddiad. Mae wedi bod yn gartref i Dywysogion Cymru a myrdd o frwydrau gwaedlyd, sydd wedi creu ymdeimlad pwerus o berthyn, treftadaeth ddiwylliannol a gwerthfawrogiad o'r tirwedd. Mae hyn wedi arwain at gyfoeth o lenyddiaeth ac economi amrywiol sydd wedi esblygu dros y canrifoedd.

Nid yw'r fframwaith yn ddogfen anhyblyg na thraddodiadol, mae'n darparu fframwaith i ganfod sut mae'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn bwriadu cyflawni'r blaenoriaethau.

Caiff llwyddiant y Fframwaith ei fesur gan y camau gweithredu unigol sy'n dilyn ei chyhoeddi. Wrth wneud hynny, rhaid inni sicrhau ein bod yn cymryd camau clir i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir a chyfleoedd presennol ac yn y dyfodol i'r economi ranbarthol o ganlyniad i'r pandemig, ymadael â'r UE ac wrth gwrs y newid i sero net a dal fel egwyddor allweddol nad yw'r gwaith o greu cymunedau byth yn dod i ben.

Mae'r Fframwaith, drwy ei flaenoriaethau, yn nodi llwybr i hybu cynhyrchiant a chyflymu llewyrch economaidd a chynhwysol cynaliadwy drwy weithio mewn partneriaeth â'r ecosystem o gymorth i sicrhau effaith ar y cyd.

### Rôl allweddol y Fframwaith





Mae'r blaenoriaethau'n hyblyg a byddant yn cael eu hadolygu'n barhaus, gan ein galluogi i addasu ac ymateb yn well i heriau a chyfleoedd deinamig y Rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau wedi'u llunio yng nghyd-destun dull systemau cyfan o hwyluso'r gwaith o ddatgarboneiddio'r economi, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd a gwella cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol (nid ydynt mewn unrhyw drefn):

1. Sgiliau a Gweithlu
2. Buddsoddi mewn magnetau, hybiau, cadwyni cyflenwi, ymchwil a datblygu, arloesi ac Entrepreneuriaeth.
3. Cefnogaeth gytbwys i fuddsoddwyr cynhenid a mewnfuddsoddwyr.
4. Iaith, diwylliant, lle a threftadaeth.

5. Economi Sylfaenol a sylfaen Microfusnesau / Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) fywiog.
6. Grymuso cymunedau er budd cenedlaethau'r dyfodol.
7. Cysylltedd (trafnidiaeth a digidol).
8. Manteisio i'r eithaf yn y sector gyhoeddus.
9. Ynni carbon isel.
10. Diwydiant Bwyd a Diod.

Yn seiliedig ar yr ymgysylltu a fu â rhanddeiliaid ac ymchwil gychwynnol (fel y gwelir yn y dogfennau ategol), mae'r ddogfen hon cyflwyno blaenoriaethau sydd wedi esblygu o'r rhwystrau i weithgarwch economaidd a'r cryfderau sy'n bodoli eisoes. O dan arweiniad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, mae'r Fargen Twf wedi darparu sail gref ar gyfer datblygu'r fframwaith.



**Poblogaeth**

Ychydig dros **700,000** o bobl

**Newid yn y Boblogaeth**

**6.4%** o gynnydd rhwng 2000-2020

mwyaf Conwy – **8.8%**
lleiaf Môn – **3.7%**

**Poblogaeth**

**2.5%** o dwf mewn dwysedd 2010-2020

**Poblogaeth**

Cyfradd twf y boblogaeth **yn is** rhwng 2000 a 2020 na rhwng 2000 a 2010

**Poblogaeth**

Dros **100,000** o drigolion mewn 4 o'r 6 Awdurdod. Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd a Chonwy.

**Y Gymraeg**

**204,406** o siaradwyr Cymraeg

**Y Gymraeg**

**41%** o siaradwyr Cymraeg, cynnydd o **2.8%** ers 2010

**Yr Economi**

**£564.00** oedd enillion wythnosol cyfartalog Gogledd Cymru – yr uchaf yng Nghymru ac yn uwch na chyfartaledd y DU

**Cyflogaeth**

**315,200** o swyddi yn y rhanbarth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021. Gostyngiad o **11,300** o'i gymharu efo'r flwyddyn flaenorol.

**Cyflogaeth**

**5,135** busnesau cofrestredig newydd ar draws Gogledd Cymru ers 2018 (ffigur a gyfrifwyd drwy grynhoi'r ffigurau a gyhoeddwyd ar gyfer 2019 a 2020)

**Cyflogaeth**

2019, **65,360** o fusnesau Gweithredol yng Ngogledd Cymru, micro (0-9 o weithwyr) – **61,745**, bach (10-49 o weithwyr) – **2,365**, canolig (50 – 249 o weithwyr) **560**, mawr (dros 250 o weithwyr) – **690**

**Yr Economi**

Yn 2019, Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) Gogledd Cymru yn **23%** o GYG Cymru

**Yr Economi**

Gwerth GYG Gogledd Cymru yn 2019 oedd **£15.4 biliwn**

**Cysylltedd**

**18.5km** bellter cyfartalog mae pobl yn teithio i'r gwaith

**Cysylltedd**

Cysylltedd digidol **92%** o gartrefi a busnesau bach yn cael mynediad i o leiaf 30Mb/au

Cartref i Barc Cenedlaethol Eryri
**3** Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

**15** mynydd uwchben **3000tr,** gan gynnwys y mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr

**1210** o henebion cofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol

**5** Dynodiad Arfordir Treftadaeth – Y Gogarth, Arfordir Gogledd Ynys Môn, Mynydd Caergybi, Bae Aberffraw ac Arfordir Llyn

**3** safle UNESCO (Safleoedd Treftadaeth y Byd) Cestyll a waliau trefol Brenin Edward, Camlas a traphont ddwr Pontcysyllte a thirweddau llechi'r Gogledd Orllewin

**24** o dirweddau cofrestredig o arwyddocâd hanesyddol eithriadol neu arbennig

**10911** o adeiladau rhestredig; **184** ohonynt yn Radd I; **759** yn Radd II*. **177** o ardaloedd cadwraeth.

**134** o Barciau a Gerddi Hanesyddol cofrestredig yn y rhanbarth

Llyn Tegid – llyn naturiol mwyaf Cymru


# Yr Economi Llesiant

Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar egwyddorion economi Llesiant. Mae'r Economi Llesiant yn golygu mabwysiadu dull gwahanol o ddatblygu'r economi ar gyfer gogledd Cymru. Nid yw'n ymwneud yn unig â thwf economaidd ar unrhyw gost ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni newid ein ffocws oddi ar dwf yn unig, i ddiogelu a chefnogi cymunedau.

Mae hyn yn ymwneud â chydnabod yr hyn sydd wrth wraidd yr heriau sydd gennym yn y Gogledd, yn hytrach nag ymdrin â hwy'n unig. Mae'n ymwneud â chreu cydraddoldeb a chaniatáu i gymunedau fod â'r hyder a'r gallu i fod yn gynaliadwy a chaniatáu i'r economi ffynnu a thyfu.

Yn y bôn, mae angen inni ddeall yr hyn fydd llwyddiant yn ei olygu ar gyfer Gogledd Cymru; ni ddylai fod yn ymwneud â chynnyrch domestig gros/gwerth ychwanegol gros yn unig. Rôl y Fframwaith cyntaf hwn felly yw dylanwadu'n raddol ar y newid yn ein meddwl tuag at set ehangach o fesurau wedi'u gosod yn erbyn y blaenoriaethau ehangach megis yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae'r Fframwaith, yn dilyn trafodaethau rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth, yn seiliedig ar dair thema graidd:




Yn amlwg, mae'r rhain yn creu ffiniau artiffisial ac ni ddylid anwybyddu cymhlethdod y berthynas. Crëwyd y rhain i ganiatáu ar gyfer dogfen ddarllenadwy. Mae'r diagram ar ddechrau pob thema yn dangos yr agweddau rhyngddibynnol sy'n gysylltiedig â'r maes hwnnw.

# Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol – Blaenoriaethau

### 1. Yr Economi Gymdeithasol a Llesiant Cymunedol



**Y Gymraeg**

Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru a Chymru

**76.9%**

**Poblogaeth**

2000-2020 cynyddodd cyfran y boblogaeth **65** oed a throsodd o **18.3%** i

**23.4%**

**Poblogaeth**

**75%**

o bobl 16 oed a throsodd yn adrodd am iechyd cyffredinol da neu dda iawn 2017-2018 a 2018-2019

**Poblogaeth**

2000-2020 cyfradd twf poblogaeth ranbarthol o

**6.5%**

**Poblogaeth**

2000-2020 Gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth **15** oed ac iau o **19.8%** i

**17.6%**

**Y Gymraeg**

Twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg o

**2.4%**

ers 2010 (blwyddyn a ddaeth i ben 2020)

**Yr Economi**

Gwariwyd

**£6.3 biliwn**

y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau allanol gan gyrff sector cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru (Cymru gyfan) (Fframwaith Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru, Chwefror 2021)

**Addysg Uwch**

2019-20

**17,290**

o gofrestriadau ar gyrsiau Addysg Uwch (AU) efo darparwyr sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, sy'n cynrychioli 13% o gofrestriadau myfyrwyr ledled Cymru

**Marchnad lafur**

Cyfradd anweithgarwch economaidd o

**20.7%**

(ac eithrio myfyrwyr) (blwyddyn yn diweddu Mehefin 2021). Gogledd Cymru a welodd y cynnydd mwyaf mewn anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ledled Cymru o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

**Cysylltedd**

2017-18

**1.4 miliwn**

yn teithio gyda trên, cynnydd o 20,525 ers 2007-08

**Cyflogaeth**

Yn ôl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, maent yn cyflogi dros

**17,000**

**Addysg Uwch**

2019-2020 – Prifysgol Bangor a welodd y nifer uchaf (**58%**) o gofrestriadau AU i ddarparwyr yn y rhanbarth

**Amddifadedd**

O'r **191** o ACEHI mwyaf difreintiedig ledled Cymru yn 2019 – h.y. y 10% mwyaf difreintiedig, mae **23** ohonynt yng Ngogledd Cymru. Mae ardaloedd yn Y Rhyl a Wrecsam yn ymddangos yn y deg ardal mwyaf ddifreintiedig yng Nghymru

**Cysylltedd**

Trigolion sy'n gweithio yng NgC, ar gyfartaledd, oedd yn cymudo hiraf yn unrhyw le yng Nghymru (2011) ar wahân i Wrecsam, mae hyn wedi cynyddu ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth ers 2001

**Cysylltedd**

**75.7%**

o weithwyr 16-74 oed sy'n byw yng Ngogledd Cymru yn teithio i'r gwaith mewn car, fan, beic modur, sgwter neu foped

**Canol Trefi**

**2** ddinas yng Ngogledd Cymru – Bangor (18,000) a Llanelwy (3,500)

**Blaenoriaethau:**

1.1 Gweithio gyda'n gilydd fel rhanbarth, gan gydnabod bod y ffordd yr ydym yn cyflawni'r un mor bwysig â'r hyn a ddarparwn. Drwy groesawu ffyrdd cydweithredol o weithio gallwn gynnal a chynyddu ein heffaith, er gwaethaf llai o adnoddau a chapasiti ar draws pob sector. Gan adeiladu ar ddull portffolio'r Fargen Twf gan sicrhau cyfranogiad trawsffiniol, wth ystyried ar y cyd, bydd angen gweithredu ar unwaith ar:

- **Ariannu** – Deall ar y cyd, sut y gellir defnyddio elfennau unigol y cyllid yn fwy effeithlon i greu dull cysylltiedig er mwyn sicrhau seilwaith angenrheidiol, a mewnfuddsoddiad hirdymor i'r rhanbarth a fydd yn cefnogi ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer y gadwyn gyflenwi gynhenid.
- **Tystiolaeth** – Nodi dull cydweithredol o gasglu tystiolaeth a dileu bylchau ar draws y rhanbarth i ddarparu tystiolaeth sylfaenol ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol a dulliau o fesur economi lwyddiannus a ffyniannus yng ngogledd Cymru.
- **Sgiliau** – Datblygu ein dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen, gan sicrhau'r sgiliau cywir ar gyfer gweithlu'r dyfodol sy'n darparu cyfleoedd a chyflog byw i bawb.
- **Caffael** – Creu proses gaffael gynaliadwy, drwy sicrhau bod caffael yn y sector cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i annog datgarboneiddio cadwyni cyflenwi yn ehangach. Gweithio gyda'n sefydliadau angori i sefydlu cyswllt cryf â chymunedau yn yr un ffordd ag y mae cwmnïau'n gweithredu (Trwydded Gymdeithasol i Weithredu). Gan sicrhau bod caffael yn y sector cyhoeddus yn sbarduno datblygiad cadwyni cyflenwi lleol dwfn a chydnerth ac sy'n arwain at ganlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol.
- **Y Gadwyn Gyflenwi** – Sicrhau dull cysylltiedig o sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gwmnïau cynhenid.
- **Newid yn yr Hinsawdd** – Cynnal sgyrsiau anodd i ddelio ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau sero net gan ddarparu hefyd ar gyfer economi a chymdeithas ffyniannus.
- **Diogelu Cymunedau** – Cefnogi'r gwaith o gyflymu'r broses o adeiladu cartrefi gan gynghorau, cymdeithasau tai a datblygwyr preifat wrth sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu er budd cymunedau lleol, gan ddefnyddio sgiliau a deunyddiau lleol lle bynnag y bo modd.
- **Gofal Cymdeithasol** – Cefnogi cydnerthedd yr economi Gofal Cymdeithasol a'r gweithlu gan gydnabod bod gan y rhanbarth boblogaeth uchel o drigolion dros 75 oed yn ein cymunedau.
- **Cysylltedd digidol** – Sicrhau bod gan bob rhan o'r rhanbarth y cysylltedd digidol sydd ei angen i weithio mewn byd rhithwir i ganiatáu cydraddoldeb i gael mynediad at swyddi.
- **Ymchwil, Arloesi ac Entrepreneuriaeth** – Cefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus a'n busnesau preifat gan hoelio sylw ar fusnesau bach a chanolig cynhenid.
- **Cysylltedd trafnidiaeth** – Diogelu a gwella gwasanaethau i Iwerddon ac yn drawsffiniol i Loegr, ac i ganolbarth a de Cymru er mwyn sicrhau bod gennym fynediad at ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus a llesol. Er mwyn galluogi cymunedau i deithio'n rhwydd yn y modd mwyaf effeithlon o ran carbon, gan gryfhau ein cysylltiad â gweddill Ewrop a'r byd ar yr un pryd a hoelio sylw ar brif gynllun Caergybi.a focus on the Holyhead master plan.

1.2 Sicrhau bod gwariant y gwasanaeth iechyd yn cael yr effaith fwyaf yn y rhanbarth.

1.3 Sicrhau prosiectau ychwanegol sy'n gysylltiedig â thechnolegau uwch newydd megis radioisotope meddygol, gan gydnabod y potensial ar gyfer twf mewn ymchwil iechyd yn yr ardal drwy ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

1.4 Hyrwyddo'r Gogledd yn hyderus fel rhanbarth sydd ag ystod eang o gyfleoedd economaidd, gan gynnwys buddsoddiadau'r Fargen Twf. Denu ein pobl ifanc i aros a darparu lle uchelgeisiol a deniadol iddynt fyw ynddo, i gael cyflogaeth fedrus sy'n talu'n dda ac i annog buddsoddiad.

1.5 I gefnogi adferiad cryf, rhaid i ni ddarparu cynnig mwy pwrpasol ac integredig i'r rhai sydd am ddechrau neu dyfu busnes yng ngogledd Cymru. Mae gan y rhanbarth ganran uchel o fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys perchnogion busnes a'r hunangyflogedig sy'n wynebu heriau penodol ac sydd wedi cael llai o fynediad at gymorth y Llywodraeth. Dysgu o'r gwaith sydd wedi ei wneud ar y cyd ac adeiladu ar raglenni fel Arfor a Busnes Cymru.


1.6 Bydd angen partneriaethau cryf rhwng cymunedau, busnesau a chynghorau i alluogi canol trefi a phentrefi i fanteisio ar ailddiffinio rôl y stryd fawr leol. Drwy gefnogi a chaniatáu i fusnesau llai fod yn fwy cystadleuol, dod yn ganolfannau ar gyfer gweithio o bell ac amwynderau drwy sefydlu canolfannau cymunedol a all ddarparu gwasanaethau gwerthfawr a chreu gwasanaethau arloesol.

1.7 Gweithio gyda chenedlaethau'r dyfodol i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt mewn canol trefi, er mwyn sicrhau ein bod yn creu cyfleoedd i'r ieuenctid drwy ddarparu ar gyfer eu hanghenion a fydd yn dylanwadu arnynt i aros yn y rhanbarth wrth ddilyn a datblygu eu gyrfaoedd.

1.8 Sicrhau bod ystod o gyrsiau addysg bellach ac uwch dwyieithog yn cael eu datblygu a'u cynnig. Caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu gyrfaoedd sydd wedi'u gwreiddio yn y rhanbarth. Defnyddio'r gallu sgiliau cydweithredol cryf yn y rhanbarth, gan adeiladu ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil datblygiadau fel Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, M-SParc ac AMRC Cymru.

1.9 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio'n rhithiol er mwyn creu cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gael gwaith heb fod angen teithio. Felly'n darparu llwyfan ar gyfer cyfleoedd digidol arloesol ar gyfer datblygu offer aml-iaith i alluogi defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg a bod y rhanbarth yn arweinydd byd-eang mewn technoleg rhyngwyneb aml-iaith.

## 2. Yr Economi Profiadau



**Twristiaeth**

Cyflogaeth uniongyrchol o
**42,326**
(2018, adroddiad STEAM)

**Twristiaeth**

Effaith Economaidd y Sector Twristiaeth –
**£3.1 biliwn**
(2016) (Cymru gyfan)

**Twristiaeth**

Cyfartaledd blynyddol ar gyfer gwariant twristiaeth
**£1.5 biliwn**
yn 2017-2019 (Proffil twristiaeth GC 2017-2019)

**Twristiaeth**

Mae gan Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy ymhlith y cyfrannau mwyaf o gyflogaeth mewn twristiaeth ledled Cymru, ar ôl Sir Benfro

**Twristiaeth**

O ran ymweliadau ag atyniadau twristaidd yng Nghymru sy'n codi tâl ar ymwelwyr, yn 2018 roedd **7** o'r **10** atyniad uchaf yng Ngogledd Cymru: Gardd Bodnant, Castell Caernarfon, Castell Conwy, Tramffordd y Gogarth, Nova Prestatyn, Coedwig Zip World, a Zip Llechwedd

**Tourism**

Yn 2019, teithiodd cyfanswm o
**2.4 miliwn**
o deithwyr môr rhwng Cymru ac Iwerddon. Aeth **1.9 miliwn** o'r rhain drwy Gaergybi

**Amgylchfyd Cyhoeddus a Mannau Agored**

**5** o'r **10** atyniad mwyaf poblogaidd yng Nghymru sydd am ddim yng Ngogledd Cymru (2018): Parc Coedwig Gwydir, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch, Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chanolfan Ymwelwyr Basn Trefor, Yr Wyddfa (Cerddwyr) a Pharc Hwyl Tir y Tywysog, Cae Ras a Marchnad

**Diwylliant**

Ail gartrefi – ardaloedd yng Ngwynedd a Môn yn profi cymaint â
**40%**
o'r stoc tai yn ail gartrefi (CDLI)

**Diwylliant**

2019/2020, llyfrgelloedd Gogledd Cymru yn:

- Croesawu **2,317,802** o ymwelwyr
- **218,692** o aelodau
- Cyflogi **167** o bobl
- Benthyca **2,038,402** o lyfrau
- **251,471** o fenthyciadau ELyfrau/EAudio
- Cynhyrchu **£473,250** o incwm

**Diwylliant**

**36**
Amgueddfa achrededig (neu sy'n gweithio tuag ato) yng Ngogledd Cymru

**Diwylliant**

**48** o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Ngogledd Cymru

**Diwylliant**

Mae'r diwydiant Creadigol yng NgC yn cefnogi
**10,800** o swyddi

**Diwylliant**

Cyfartaledd cyflog wythnosol y diwydiant creadigol yw
**£711**

**Diwylliant**

Mae mwy na
**1,110** o fentrau'n gysylltiedig â'r diwydiant creadigol

**Diwylliant**

2019 amgueddfeydd Gogledd Cymru yn:

- Cyfrannu **£20,015,174** at yr economi leol
- Croesawu **1,384,594** o ymweliadau

**Diwylliant**

2019 croesawodd y naw safle henebion hanesyddol â staff dros
**660,000** o ymwelwyr a **13,500** o ymweliadau addysgol

**Diwylliant**

Mae
**61** o henebion hanesyddol o dan warchodaeth gwladol yn amrywio o safleoedd claddu cyn hanesyddol i abatai a chestyll Canoloesol

## Ffigyrau Cymru Gyfan

**Chwaraeon a Hamdden**

Am bob **£1** a fuddsoddir mewn chwaraeon yng Nghymru mae £2.88 yn cael ei ddychwelyd

**Chwaraeon a Hamdden**

Fe dyfodd y diwydiant chwaraeon yng Nghymru 10% i **£1,142m** yn 2016/17

**Chwaraeon a Hamdden**

Cyfrannodd yr economi chwaraeon **£1,182m** mewn Gwariant Defnyddwyr ar Chwaraeon a chynhyrchodd 29,700 o swyddi yn ymwneud â chwaraeon yn yr un flwyddyn

**Bwyd a Diod**

Allforion bwyd a diod o Gymru – **£551 miliwn** yn 2020 (yn tyfu tan i Covid daro Cymru), gostyngiad o £19 miliwn ers 2019

**Bwyd a Diod**

Roedd gan fusnesau yn y gadwyn gyflenwi drosiant o **£22.4 biliwn** yn 2020, cynnydd o £272 miliwn o'i flwyddyn flaenorol

**Bwyd a Diod**

Cynyddodd GYG ar gyfer bwyd a diod o Gymru **3.9%** rhwng 2018 a 2019, o **£3.70bn** i **£3.85bn**

**Bwyd a Diod**

Cynyddodd allforion Bwyd a Diod yn gyffredinol rhwng 2016 a 2020 i **£551.9m** (cynnydd o £116.3m)

**Food and Drink Industry**

Mae'r sector bwyd a diod yn cyfrif am **17.8%** o'r gyflogaeth yn 2019 (239,300 o weithwyr) (gan gynnwys ffermwyr a gweithwyr amaethyddol)

### Blaenoriaethau:

2.1 Er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r economi profiadau, i ddiogelu cymunedau a chefnogi diwydiannau, mae angen i ni ymateb i'r materion pwysicaf ar y cyd:

- cefnogi cymunedau lleol i fanteisio ar y diwydiant profiadau ac ymwelwyr, ac i fod yn gyfrifol amdano mewn ffordd sydd o fudd i'r cymunedau hynny, gan weithio ar draws y rhanbarth a chyda rhanbarthau tebyg eraill ledled y DU i ddatblygu arfer gorau.
- sicrhau cynnig twristiaeth drwy'r flwyddyn, lle bo'n briodol, i greu cyfleoedd mwy cynaliadwy i'r gweithlu
- datblygu cyflenwad lefel uwch o sgiliau amlieithog mewn lletygarwch, diwydiannau gwasanaeth, gweithgareddau awyr agored a rheoli digwyddiadau, gan arwain at rolau medrus ar gyfraddau cyflog uwch.
- datblygu strategaeth bwyd a diod, gan gynnwys strategaethau bwyd cymunedol, ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, i dyfu graddfa, gwerth a chynhyrchiant ein busnesau yn ogystal â bod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas.
- yn cyd-fynd â rhaglen Arloesi Bwyd Cymru, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau y gall ein sector bwyd a diod fod yn arweinwyr y DU. Drwy gyrraedd y lefelau uchaf o gynaliadwyedd a bod gwaith teg yng Nghymru yn cael ei wobrwyo, ei glywed a'i gynrychioli.
- cydweithio i geisio tystiolaeth i ddarparu dealltwriaeth gliriach o gyfleoedd economaidd yn y diwydiant chwaraeon a hamdden yn y dyfodol ar draws y rhanbarth. Datblygu map llwybr i sbarduno buddsoddiad i ddarparu adnoddau a newidiadau ar raddfa mewn cyfleusterau chwaraeon elît a chyfleusterau newydd, a thrawsnewid y ffordd y caiff chwaraeon

a chyfleoedd corfforol lleol eu rheoli a'u darparu drwy sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Gogledd Cymru.

- cryfhau cyfleoedd i'r diwydiant creadigol ar draws y rhanbarth sy'n sicrhau cyfleoedd arloesol i'r Gymraeg a diwylliant Cymru ffynnu hyd yn oed yn fwy, gan sicrhau bod gan bob ardal fynediad at weithgareddau diwylliannol.

2.2 Gweithio gyda'n busnesau cynhenid i sicrhau eu bod mewn sefyllfa gref i elwa ar yr economi ymwelwyr, gan roi'r sgiliau iddynt ddatblygu, creu cyfleoedd newydd yn y rhanbarth ac i ddiogelu cymunedau lleol a'u hamgylchedd lle mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd.


2.3 Meddwl yn greadigol, drwy gyd-fynd â phrosiectau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, ar ddarparu cyfleoedd a chyfleusterau i bobl ifanc drwy sicrhau bod gan ganol ein trefi ddarpariaeth hamdden (gan gynnwys gyda'r nos) a all gystadlu ag ardaloedd eraill. Tra hefyd yn darparu ar gyfer gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn i ddarparu dewis i bobl ifanc, gan roi cyfle gwirioneddol i'r rhanbarth gadw ei weithlu yn y dyfodol.

2.4 Gwireddu manteision economaidd amgylchfyd cyhoeddus yn ein trefi, gan ganiatáu i breswylwyr ac ymwelwyr elwa ar barciau a mannau agored, sgwariau a strydoedd gyda choed. Dangosodd y cyfnod clo pa mor hanfodol yw lleoedd o'r fath i'n lles fel lleoedd i ddianc iddynt yn ogystal â gwella'r amgylchedd naturiol a darparu ysgogiad economaidd.

2.5 Sicrhau bod unrhyw wariant sylweddol ar seilwaith neu weithgareddau diwylliannol yn treiddio i weithgareddau eraill yn y rhanbarth, gan fanteisio ar effaith gwariant cyhoeddus.

2.6 Archwilio cyfleoedd i gymunedau gael rolau gweithredol wrth ehangu'r cynnig diwylliannol, gan adeiladu ar gyfleoedd sydd wedi'u creu mewn llawer o drefi/pentrefi ar draws y rhanbarth ac sy'n allweddol o ran cadw ein treftadaeth a'n llenyddiaeth yn fyw ac yn berthnasol.

## 3. Yr Economi Carbon Isel ac Allyriadau Isel



Ynni Adnewyddadwy

Gogledd Cymru yn gartref i **37%** o ynni adnewyddadwy Cymru (1,183 MW)

Ynni Adnewyddadwy

**8%** o'r ynni adnewyddadwy a osodwyd yn y rhanbarth, mewn eiddo lleol

Ynni Adnewyddadwy

**85%** o'r 17,800 o brosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth ar gyfer ynni solar

Ynni Adnewyddadwy

Ynys Môn, Conwy a Wrecsam oedd â'r swm ynni carbon isel isaf yn y rhanbarth ar **85 MW**, tra bod gan Sir y Fflint yr uchaf gyda dros **30%** o swm y rhanbarth

Ynni Adnewyddadwy

**39%** Mae'r gyfran fwyaf o'r defnydd o ynni ar gyfer defnydd masnachol a diwydiannol

Ynni Adnewyddadwy

Gostyngodd cyfanswm y defnydd o ynni yng NgC 5% rhwng 2005 a 2017 a gostyngodd yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o'n system ynni **28%**

Ynni Adnewyddadwy

Mae Gogledd Cymru yn defnyddio bron i **25%** o ynni Cymru, ychydig yn uwch na'i phoblogaeth o 22% (2019)

Ynni Adnewyddadwy

**36%** o'r cartrefi mewn band Tystysgrif Perfformiad Ynni (TPY) E, F neu G

Amaethyddiaeth

Cyfanswm yr allyriadau o'r sector amaeth yng Nghymru wedi gostwng **12%** rhwng 1990 a 2016

Amaethyddiaeth

Allyriadau amaethyddol yn cael eu dominyddu gan fethan (62%) ac ocsid nitraidd (28%), a 10% o allyriadau'r sector fel carbon deuocsid. Mae hyn yn adlewyrchu goruchafiaeth allyriadau enterig da byw (yn bennaf o ddefaid a gwartheg), sy'n cyfrif am **54%** o allyriadau'r sector yn 2016.

Trafnidiaeth

Teithio gweithwyr 16-74 oed (cyfrifiad 2011):

**75.7 %** (237,000) mewn car, fan, beic modur, sgwter neu moped

**11.9%** (37,000) ar droed neu ar feic

**5.1 %** (16,000) ar drên, bws, bws mini neu goets

Trafnidiaeth

2019 – **567,000** o loriau a threlars heb gerbyd tynnu, yn pasio drwy borthladdoedd Cymru yn ôl ac ymlaen i'r Iwerddon. 81.9% o'r traffig hwn drwy Gaergybi (gweler StatsCymru)

Niwclear

Yng Nghymru, mae **893** o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol mewn sefydliadau diwydiant niwclear

Niwclear

2016 – amcangyfrifwyd fod gweithiwr niwclear ar gyfartaledd yn cyfrannu Gwerth Ychwanegol Gros (GYG o **£96,600** i'r economi

Gwastraff

2020 dros **65%** o wastraff yn cael ei ailgylchu yng Nghymru

Gweithgynhyrchu

**71%** o'r holl drydan a ddefnyddir yn y rhanbarth yn cael ei ddefnyddio gan sector fasnachol a diwydiannol

Seilwaith / Porthladdoedd

2018 Caergybi oedd gyda'r trydydd cyfradd uchaf o draffig cludo nwyddau – **5.2 miliwn tunnell**

Seilwaith / Ffyrdd

Yr A55 – **87 miles** yn croesi 5 o'r 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, gan ffurfio rhan o'r rhwydwaith traws-Ewropeaidd

**Blaenoriaethau:**

3.1 Cydweithio ar draws pob sector, yn enwedig y sector cyfleustodau, i greu Mapiau Llwybr Ynni Carbon Isel a Thwf Gwyrdd. Datblygu a gweithredu system ynni aml-fector resymol sy'n darparu dull cyson o fanteisio ar gyfleoedd mewn twf carbon isel a gwyrdd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i gymunedau lleol a sicrhau bod y bunt yn aros yn lleol.

- **Map Llwybr Hydrogen** – Parhau i ddatblygu map llwybr i ddeall y dull gorau i ddarparu'r cyfle i ddefnyddio Hydrogen ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru, gan wneud y mwyaf o'r arbenigedd a'r asedau sydd ar gael a'r manteision y gellid eu cael.
- **Ynni Carbon Isel** – Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Rhanbarthol i baratoi cynllun gweithredu i gyflawni Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, sy'n tynnu sylw at ba mor fawr yw'r cyfle economaidd a gyflwynir yn yr ymgyrch i sicrhau sero net.
- **Pwyntiau gwefru cerbydau trydan** – Cydweithio i ddarparu rhwydwaith i sicrhau bod gan bob cymuned fynediad i'r seilwaith sydd ei angen arnynt.
- **Effeithlonrwydd ynni** – Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r broses o ddatgarboneiddio stoc adeiladau gogledd Cymru a sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y caiff cartrefi eu gwresogi a lefel eu heffeithlonrwydd ynni ar draws y rhanbarth

3.2 Cydweithio ar draws y rhanbarth i ddatblygu cadwyn gyflenwi gynaliadwy, sgiliau a seilwaith porthladdoedd i gefnogi'r diwydiant gwynt ar y môr yn y rhanbarth ac yn fyd-eang:

- **Ffrwd lanw** – Gan adeiladu ar waith sydd eisoes yn digwydd i sicrhau y gall cwmnïau lleol fod yn gystadleuol i gefnogi'r diwydiant hwn sy'n tyfu.
- **Amrediad llanw (morlyn)** – Parhau i archwilio potensial y diwydiant hwn yn y Gogledd a sicrhau bod gennym y gadwyn gyflenwi yn barod i'w gefnogi.
- **Gwynt ar y môr** – Gweithio gyda datblygwyr ynni gwynt sefydlog ar y môr i sicrhau ein bod yn creu cyfleoedd hirdymor cynaliadwy ar gyfer cadwyni cyflenwi a phorthladdoedd yn y rhanbarth, gan greu llwyfan cryf i gefnogi systemau sy'n arnofio ar gyfer ynni gwynt ac ynni'r tonnau hefyd.

3.3 Mynd ar drywydd trawsnewid ynni cyfiawn, drwy gadw cyfoeth yn lleol a sicrhau bod gan ein cymunedau a'n sefydliadau cyhoeddus lais yn y ffordd yr ydym yn cynhyrchu ac yn arbed ynni.

3.4 Sefydlu ffyrdd y gellir cynhyrchu ynni ar safleoedd ac ôl-osod ar eiddo mewn ffordd sy'n cynyddu cyfoeth cymunedol, gan sicrhau bod busnesau a phobl leol yn elwa ar y swm a gaiff ei wario ar y cyfnod trawsnewid ynni.

3.5 Ceisio cyfleoedd i gefnogi a buddsoddi yn yr economi carbon isel mewn lleoliadau, prosiectau a chyfleusterau allweddol yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys marchnata'r rhanbarth fel lleoliad o ddewis ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol ochr yn ochr â rhoi cymorth i gadwyn gyflenwi Cymru i gystadlu am waith gwaith ledled y DU a thramor ar gyfer:

- **Niwclear** (gwaith adeiladu o'r newydd a datgomisiynu yn Wylfa a Thrawsfynydd),
- **Gwynt ar y môr** (gan gynnwys datgomisiynu),
- **Ynni'r môr** (ffrwd llanw ac ystod)
- **Hydrogen**
- **Porth Caergybi**
- **Gofod, awyrofod a moduro** (gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu

a lleoliadau allweddol gan gynnwys clwstwr Glannau Dyfrdwy / Wrecsam, Llanbedr a'r Fali).

3.6 Gwneud y gorau o le gogledd Cymru yn yr economi wybodaeth, gan gydnabod partneriaethau ag adnoddau megis Bwa Niwclear y Gogledd-orllewin, Optic Glyndwr ac M-SParc, gan wella rhwydwaith o gyfleusterau ymchwil a datblygu a chwmnïau cadwyn gyflenwi sy'n ymestyn o Cumbria i ogledd Cymru ac sy'n cwmpasu Swydd Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf, Swydd Gaer a Dinas Sheffield.

3.7 Newid cyfeiriad Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel (HVM) ar gyfer dyfodol ôl-Covid, ôl-Brexit a charbon isel drwy weithredu'r Fframwaith ar gyfer Dyfodol HVM, yn enwedig mewn perthynas â Diwydiant 4.0, technoleg ddigidol ac awtomeiddio, gan adeiladu ar ein buddsoddiad mewn Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru a datblygiad arfaethedig Canolfan Ymchwil Technoleg Uwch (ATRC). Bydd hyn yn hollbwysig o ran sicrhau cyfleoedd arloesol yng ngogledd Cymru i leihau allyriadau drwy weithio gyda'r byd academaidd i ddefnyddio mwy o gynnwys wedi'i ailgylchu drwy ddull economi gylchol.

3.8 Gweithio'n rhanbarthol gyda'r cwmni datblygu Cwmni Egino Cyf i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar draws y rhanbarth ar gyfer niwclear ag o bosib ffyrdd eraill o gynhyrchu ynni.

3.9 Mae sawl rhan o ogledd Cymru yn dioddef o gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwael, sy'n effeithio ar fynediad trigolion i swyddi, addysg a hyfforddiant. Mae angen inni barhau i hyrwyddo teithio llesol, darparu cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd ac annog pobl i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus wrth i'r ddibyniaeth ar geir preifat dyfu. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i gael buddsoddiad mewn cysylltiadau trafnidiaeth strategol newydd ac i fynd at gyfleoedd i sicrhau newidiadau i ddulliau trafnidiaeth carbon is:

- **Trafnidiaeth lesol** – Darparu dewis amgen gwirioneddol i gymunedau, gan gydnabod pwysigrwydd rôl y cymunedau yn hyn o beth, yn enwedig i newid ymddygiad cymdeithas.
- **Trafnidiaeth gyhoeddus** – Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnig dewis amgen i'r car ar draws y rhanbarth yn ogystal ag ar draws ffiniau.
- **Rhwydweithiau beicio a cherdded** – Adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd i greu dewis amgen diogel ar draws y rhanbarth.

3.10 Mae angen inni ddatblygu diwydiant amaethyddol cydnerth a llewyrchus, sy'n lleihau ei allyriadau carbon drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys datblygu gwell effeithlonrwydd o ran cynhyrchu da byw a chnydau, rheoli maetholion a chynyddu cynaliadwyedd asedau fferm, gan adeiladu ar weithgareddau cyfredol ac arfaethedig yng Nglynllifon a Llysfasi.

3.11 Gweithio gyda'r diwydiant amaethyddol i gefnogi arloesedd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd cynhyrchion amaethyddol i sicrhau bod y diwydiant yn arwain o ran cynaliadwyedd.

3.12 Gweithio ar y cyd i weithredu newid systemig mewn allyriadau o ganlyniad i brynu nwyddau er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau cyhyd ag y bo modd ac yn dod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio adnoddau, gan sicrhau bod canolfannau cymunedol

yn chwarae rhan allweddol a bod datgomisiynu yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw brosiect sy'n digwydd yn y rhanbarth ar draws pob sector.

3.13 Gweithio ar y cyd i wella'r ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol drwy sicrhau bod unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol yn adeiladu ac yn creu ecosystem gydnerth, gan greu camau gweithredu i'w gwella sy'n ategu'r broses o weithredu atebion technolegol, effeithlonrwydd adnoddau (gwneud y mwyaf o fywyd cynnyrch) a buddsoddi mewn atebion i gefnogi'r economi gylchol.

# Camau Nesaf

Y camau nesaf sydd angen eu cymryd ar unwaith, fydd sefydlu, drwy Grŵp Adfer yr Economi (a phartneriaid allweddol eraill), raglen gyflawni. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut yr ydym yn blaenoriaethu'r blaenoriaethau, a phwy sydd orau i arwain ar y pecynnau cyflenwi hynny, gan gydnabod a pharchu'r broses lywodraethu a chyflawni rhanbarthol bresennol.

Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes yn digwydd ac felly bydd angen inni gael gwell dealltwriaeth o'r hyn oll sydd ar waith, y pecynnau ariannu o dan bob maes blaenoriaeth cyn creu meysydd gwaith newydd.